

Llawlyfr i Weithwyr allweddol



(Ffynhonnell: Google search, 2020)

Cyfnod Pontio-
Cartref i gylch meithrin

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Beth yw pontio?.....	3
Pwrrpas.....	6
Sut i ddefnyddio?.....	7
Rôl yr oedolyn.....	8
Person allweddol.....	11
Cyfrifoldebau gweithwyr allweddol.....	12/13
Pwysigrwydd perthnasoedd.....	13/14
Anghenion y plant.....	15
Pa math o weithgareddau.....	15/16
Pam mae chwarae yn bwysig.....	16
Sut i gefnogi plentyn.....	16/17
Casgliad.....	19
Rhestr	
cyfeiriadau.....	20/21/22
/23	

Cyflwyniad

Beth yw Pontio?

Yn ôl Collins dictionary (2020) dyfyniad Pontio yw'r broses lle mae rhywbeth yn newid o un cyflwr i'r llall.

Pontio yw'r symudiad mae plant yn gwneud o gartref i gylch meithrin neu feithrin i ysgol, sef o un profiad i brofiad arall. Mae pontio a newidiadau yn rhan o fywydau pawb. Yn ôl Parentzone (2020) mae mwyafrif o blant yn edrych ymlaen at symud ymlaen. Ond mae pontio yn gallu bod yn heriol, felly mae cymorth o rieni a staff yn helpu'r proses pontio bod yn esmwyth. Dylai pontio cael ei ystyried fel proses ac nid digwyddiad sy'n cynnwys plant, ymarferwyr, gweithwyr allweddol a rhieni gyda'i gilydd. Disgrifiwyd trosglwyddo fel taith barhaus yn hytrach na chyrchfan. (Early Years Matters, 2020).

Pam mae cyfnod pontio yn bwysig?

Yn ôl Early Education (2020) mae plant sydd wedi setlo yn gweithio yn well ac efo lles uwch. Yn amlwg mae plant angen cymorth i addasu ac i symud o un lleoliad i'r llall. Mae'n bwysig bod athrawon, rhieni ac ymarferydd yn ymwybodol bod y trosglwyddiad o gartref i Gylch meithrin yn ddigwyddiad mawr yn fywyd plentyn, dylai nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu. Felly mae'n bwysig bod athrawon, rhieni/ ymarferydd yn blaenoriaethu eu hanghenion, felly dylai cynllun trosglwyddo cael ei chynllunio

sy'n darparu ar gyfer anghenion hanfodol y plentyn. Mae pob plentyn yn unigryw er enghraifft y fwy o hyder sydd â phlentyn y gyflymach maen nhw'n setlo. Ond mae'n werth nodi hefyd os mae plentyn yn agored i niwed bydden galeddech iddyn nhw addasu i berthnasoedd ac amgylchiadau newydd, pebai rhwystr yn stopio ymgysylltu a dysgu.

Yn ôl Croneri (2019) yn ystod cyfnod pontio mae'n bwysig bod cyfathrebu effeithiol rhwng y rhieni/gofalwyr y plentyn, i sicrhau bod y wybodaeth yn glir, a bod anghenion y plentyn yn cael ei chyrraedd. Gall hyn effeithio ar ddatblygiad y plentyn, yn bositif neu'n negatif. Dylai cyfnod pontio bod y flaenoriaeth uchaf yn ysgolion, dylai cael ei chynllunio efo anghenion unigolion er mwyn gallu adeiladu hyder a gwydnwch drwy newid graddol.

Yn ôl Flying start (2017) caiff cyfnod pontio ei ystyried fel proses sy'n cael ei llunio gan strwythurau a phrosesau cymdeithasol sy'n cynnwys plant, ymarferwyr/gweithwyr allweddol a rhieni, yn hytrach na fel digwyddiad. Mae profiadau plentyn yn gallu cael ei wella pan mae ymarferydd/gweithwyr allweddol yn cefnogi plant i ffitio mewn ac yn ymwybodol o effaith gweithgareddau ar blant a'u rhieni wrth iddyn nhw gael eu sefydlu yn amgylchedd newydd. Hefyd gallwch gymryd mewn i ystyriaeth bod amgylchedd plentyn yn llunio ei ymddygiad, er enghraifft pa mor hyderus maent. Dywed O'Connor (2006) bod gallu plentyn i ymdopi a newid yn y hir dymor yn debygol o fod ei effeithio yn ystod ei phrofiadau cyntaf o gyfnod pontio a'r ffordd yr ymdrinnir â hi.


Mae plant yn debygol o deimlo'n fwy hyderus am y newid i'r lleoliad newydd os digwyddir yn raddol.

“In order to establish an effective transition into YR (Reception Year), it was strongly believed that this was best viewed as a process that emphasised continuity rather than a single event” (Maureen Hunt, 2017).

Yn ôl Bronfenbrenner (2020) esboniodd fod y plant a gafodd newid llyfn o'u cartrefi i'r amgylchedd dysgu (dosbarth) a phrofiad cadarnhaol o hyn, yn fwy tebygol o drosglwyddo'n llwyddiannus yn y dyfodol. Yn dibynnu ar y fath o amgylchedd mae plant yn amgylchynu gan yn effeithio ar ei ymddygiad. Er enghraifft yn amgylchedd positif sy'n annog datblygiad bydd yna gyfle gwell i'r plentyn, tyfu, dysgu a datblygu. Gwêl Bronfenbrenner datblygiad plentyn fel system gymhleth o berthnasoedd sy'n cael ei effeithio gan lefelau gwahanol o'r amgylchedd o'u gwmpas. Yn ystod y cyfnod pontio dywed Bronfrenbenner pwysigrwydd perthynas positif rhwng ysgol a gartref, am fod hyn yn gwneud y trosglwyddiad llai dryslyd i'r

a'r plentyn rhieni.

Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory



(C) The Psychology Notes Headquarters <https://www.PsychologyNotesHQ.com>

Mae yna 5 prif bwynt i theori Bronfrenbrenner, gwêl yn y ddiagram uchod, maent wedi trefnu ar faint o effaith mae'n cael ar blentyn.

Pwrpas

Pwrpas y llawlyfr yma yw helpu gweithwyr allweddol cefnogi plant newydd trwy gyfnod pontio o **gartref i gylch meithrin**, felly mae'r wybodaeth wedi anelu at blant rhwng yr **oedrannau 2-3 mlwydd oed**. Yn y llawlyfr bydd wybodaeth ar sut i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r plentyn.

Sut i ddefnyddio y Llawlyfr?

Dylai'r gweithwyr allweddol ddefnyddio'r llawlyfr hwn fel canllaw i hyrwyddo eu dealltwriaeth ar bwysigrwydd cyfnod pontio. Nod y llawlyfr yw i weithwyr allweddol/ ymarferydd bod yn ymwybodol sut gallent sicrhau trosglwyddiad esmwyth o gartref i gylch meithrin.

Mae'r llawlyfr wedi cynllunio'n benodol i weithwyr allweddol sy'n gweithio efo plant rhwng yr oedrannau **2-3 mlwydd oed**.

Mae'r llawlyfr wedi trefnu mewn adrannau gwahanol. Gwêl hyn ar y dudalen cynnwys (tudalen 2). Bydd rhif y tudalen ar fath o wybodaeth sydd yn cael ei darparu yn drefn ar y tudalen cynnwys.

Rôl yr oedolyn

Mae Ymarferwyr blynyddoedd cynnar efo dyletswydd bwysig iawn. Dylai ymarferwyr blynyddoedd cynnar sicrhau bod plant yn cael ei chefnogi'n llawn drwy'r cyfnod pontio a dylai cynllunio ar eu cyfer yn briodol. Wrth ddechrau yn lleoliad blynyddoedd cynnar dylai cynnig cyfleoedd cyffrous a heriol i blant, dyna pam mae'n angenrheidiol bod y cyfnod yma yn cael ei rheoli'n sensitif ac yn effeithiol. Wrth i blentyn adael gartref i fynd i glych meithrin am y tro cyntaf mae'n amser anodd ac emosiynol i'r teulu i gyd.

Dylai Ymarferwyr blynyddoedd cynnar datblygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cefnogi plant i drosglwyddo'n esmwyth ac yn llwyddiannus. (Croneri, 2019)

Yn ôl Anne O'Connor (2007) mae cynefindra yn bwysig yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y proses yn fwy esmwyth os mae'r plant yn gyfarwydd ar bobl, lle, a threfniadau'r dydd. Rôl yr oedolyn yma yw trefnu sesiynau blasu, i'r plant dod ar arfer ar leoliad cyn y dydd dechrau. Gall ymarferydd/gweithwyr allweddol hefyd trefnu ymweliadau cartref bydd hyn yn fuddiol i'r plentyn ar riant.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r ymarferwyr/person allweddol gyflwyno eu hun i'r plentyn ar riant. Hefyd mae'n gyfle i gasglu gwybodaeth ar y plentyn ac anghenion y teulu. Yn ystod yr ymweliad yma bydd gwaith papur perthnasol a llyfryn 'amdanaf fi' yn cael ei chwblhau, er enghraifft y math o

wybodaeth bydd amseroedd bwyta, alergeddau, trefniadau cysgu, arferion newid, i sicrhau bod y gylch yn trefnu'r rhain. Yn yr ymweliad mae'n angenrheidiol bod y staff/ymarferydd yn darganfod gwybodaeth ar gefndir y plentyn, anghenion diwylliannol yn ogystal ag unrhyw anghenion anabledd neu wendidau'r plentyn.

Enghraifft o weithgaredd i ddod i adnabod plentyn yw weithgaredd 'Dyma fi', mae'n daflen sy'n cynnwys gwybodaeth fel hoff fwyd, hoff lliw, hoff llyfr.



(Ffynhonnell: Twinkl, 2020)

Yn ystod yr ymweliadau mae'n bwysig bod yr ymarferydd/gweithwyr allweddol yn arsylwi'r plentyn er mwyn allu ymateb i'r plentyn yn briodol. Mae arsylwi yn cysylltu â dull Maria Montessori (2020) sef ymdrin ag addysg sy'n pwysleisio unigoliaeth ac annibyniaeth mewn dysgu. Ystyrir addysg fel proses a ddylai digwydd mewn cytgordd a chyflymder datblygiadol unigol y plentyn. Dylai'r amgylchedd canolbwyntio ar y plentyn, er enghraifft darparu offer addas megis cadeirion bach a byrddau, hyd yn oed sisyrnau mhetal er mwyn plant allu dod yn fwy annibynnol. Dylai'r amgylchedd bod yn ddiogel a chroesawgar i waith. Cyfeirir at waith fel

gweithgaredd sef chwarae, dyna pam mae'n angenrheidiol bod yr amgylchedd yn addysgiadol. Felly mae datblygiad y plentyn yn dibynnu ar yr amgylchedd. Mae'r dull yn seiliedig ar helpu plentyn fod yn fwy annibynnol, arsylwi'r plentyn, dilyn a chywiro'r plentyn a chael amgylchedd addas.

Yn ôl Maria Montessorri (2020) mae arsylwi yn ffordd i weithwyr dysgu am anghenion y plentyn. Er enghraifft os mae plentyn yn gwrthio pethau o amgylch yr ystafell efallai bod nhw'n cael trafferth i gerdded felly rhwch wagen iddyn nhw i gefnogi nhw. Dyma sut gall arsylwi helpu creu cytgor, gan gyflawni anghenion presennol y plentyn. Wrth ddilyn y plentyn byddant yn dangos beth maent eisiau gwneud, beth sydd angen iddynt ddatblygu a lle gallent sialens eu hun. Ni ddylid gwneud penderfyniadau i'r plentyn ond yn hytrach cyflwyno dewisiadau gwahanol iddynt megis teganau. Bydd hyn yn helpu'r plentyn dod yn fwy annibynnol ac archwilio pethau newydd ar ben eu hun.



(Ffynhonnell: Google search, 2020)

Wrth wybod y wybodaeth yma gall yr ymarferydd Blynnyddoedd cynnar sicrhau bod y plentyn yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel. Yn syml bydd y wybodaeth yma yn helpu

ymarferydd cynllunio gweithgareddau addas i blant wrth gyrraedd eu hanghenion. Bydd cyfle i'r rhiant gofyn unrhyw gwestiynau am y lleoliad, drefniadau'r dydd.

Person allweddol

Yn ôl Early years matter (2020) person allweddol yw person sydd â chyfrifoldebau am grŵp bach o blant yn meithrin. Yn ôl Busy bees (2020) person allweddol yw person sy'n groesawch chi a'ch plentyn yn y gylch meithrin ac yn cefnogi'r plentyn yn ystod y sesiynau. Bydd y person allweddol yn cyflawni anghenion gofal personol y plentyn, megis cysgu, newid clytiau ac agosrwydd corfforol.

Yn ystod y cyfnod pontio o gartref i gylch meithrin mae'n angenrheidiol bod pob plentyn yn cael person allweddol. Bydd y person allweddol yn darparu cyswllt hanfodol rhwng y cartref ac yn helpu i gefnogi'r broses pontio. Wrth ddefnyddio'r dull person allweddol mae'n helpu i ddatblygu perthnasoedd diogel ac ymddiriedus ac ymateb i anghenion unigol plentyn (Croneri, 2019).

Gall cysylltu hwn a damcaniaethwyr John Bowlby (2020), mae'r theori yn pwysleisio pwysigrwydd ymlyniad diogel plant efo'i Mam. Dywed Bowlby plant sydd wedi datblygu ymlyniad diogel yn teimlo'n hapus a diogel ac yn awyddus i archwilio eu hamgylchoedd. Am ei fod yn gwybod gallent ymddiried yn eu mam i fod yno iddynt. Er ei bod yn gallu bod yn ofidus yn absenoldeb eu mam, mae yna sicrwydd y bydd yn dychwelyd. Mae ymddygiad y fam yn gyson ac yn sensitif i anghenion ei phlentyn. Na pam mae'n bwysig bod plentyn gyda pherson allweddol i ddatblygu bond cryf ac ymddiriedus efo i helpu

nhw teimlo'n ddiogel a hapus, sy'n sicrhau datblygiad o ansawdd uchel.

Yn ôl Pacey (2020) mae plant yn dysgu wrth arsylwi a bod efo eraill, felly mae'r person allweddol yn bwysig oherwydd mae'r plentyn yn gallu cysylltu â dibynnu arnynt. Bydd plant yn addysgu a chanolbwyntio yn fwy effeithiol os nad ydynt o dan straen. Bydd y person allweddol yn adnabod y plentyn yn dda ac yn cefnogi ei datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol. Wrth i berthynas agos adeiladu rhwng y person allweddol ar blentyn bydd yna lawer o ymddiried efo'r plentyn. Yn ystod y cyfnod yma mae'n bwysig bod y person allweddol yn gweithio ochr yn ochr â rhieni ar ymarferydd i sicrhau bod parhad gofal i'r plentyn gan gefnogi lles emosiynol y plentyn. Bydd y person allweddol yn asesu cynnydd y plentyn, er enghraifft gweld sut maent yn dysgu trwy chwarae, ei ddatblygiad, beth yw diddordebau'r plentyn, a oes unrhyw achos o bryder neu angen am gymorth ychwanegol. Wrth ddarganfod yr holl wybodaeth yma mae'n caniatáu ymarferydd/ gweithwyr allweddol i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau i helpu plant cyrraedd eu potensial llawn.

Cyfrifoldebau gweithwyr allweddol



Ymgartrefu plant ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr



Sicrhau bod cyfleoedd gofal a dysgu yn cyrraedd anghenion plant, wrth ddarparu amgylchedd addysgol a buddiol



Cynnig perthynas sefydlog i'r plentyn, gan flaenoriaethu anghenion y plentyn



Cysylltu â rhieni a gofalwyr, gall gwneud hyn trwy siarad â rhieni yn fore cyn meithrin dechrau neu anfon gwaith cartref iddynt



Arsylwi cynnydd datblygiadol a chynllunio cyfleoedd dysgu i ddiwallu anghenion unigol



Cadw cofnodion ar weithgareddau ac arferion dyddiol, cynnydd datblygiadol, damweiniau, rhoi meddyginiaethau, ac ati a rhannu'r rhain gyda rheini a gweithwyr proffesiynol eraill yn ôl yr angen (Croneri, 2019)

Pwysigrwydd perthnasoedd

Dywed early years matter (2020) Pan fydd plentyn yn derbyn gofal y tu allan i'r cartref gallant ddatblygu diogelwch ac annibyniaeth drwy gael person allweddol i ofalu amdanynt. Bydd plant yn teimlo'n fwy diogel phan fydd eu rheini a'r ymarferydd/person allweddol yn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Mae'r person allweddol yn cynnig cysylltiad â'r cartref fel bod y plentyn yn ymdopi wrth gael ei wahanu wrth eu teulu/pobl arbennig yn eu bywyd.

Yn ôl NDNA (2020) wrth gael perthynas positif efo'r rhiant mae'n sicrhau diogelwch a lles emosiynol y plentyn. Wrth gael cyfathrebu effeithiol ac ymddiriedaeth bydden helpu'r broses o ymgartrefu yn y gylch meithrin. Bydd cael perthynas gadarnhaol a'r rheini yn helpu paratoi ar gyfer sgysiau anodd a sensitif. Mae'r rheini'n fwy tebygol o ofyn am gymorth pan fydd angen os ydynt yn teimlo bod ganddynt berthynas agos ar Ymarferydd. Mae'r perthnasoedd yma yn cynnwys cyfathrebu dwyffordd, sef gwrando, ymateb a darganfod

atebion gyda'i gilydd. Mae gweithio agos rhwng ymarferwyr blynyddoedd cynnar a rheini'n hanfodol er mwyn gallu dynodi anghenion dysgu plant a sicrhau ymateb cyflym i unrhyw faes o anhawster penodol. Mae rhieni a theuluoedd yn ganolog i les plentyn a dylai ymarferwyr gefnogi'r berthynas bwysig hon drwy rannu gwybodaeth a chynnig cefnogaeth ar gyfer ymestyn dysgu yn y gartref.

Anghenion y plant

Yn ystod y cyfnod pontio mae'n angenrheidiol bod anghenion pob plentyn yn cael eu blaenoriaethu er mwyn iddyn nhw allu datblygu i'w potensial llawn. Yn ôl Oliver Thomas (2020) dylai pob plentyn cael eu trin fel person unigol am fod pob un ac anghenion gwahanol. Y nod yw addasu amgylchedd y lleoliad a chwricwlwm i gyrraedd anghenion pob plentyn wrth gymryd mewn i ystyriaeth anabledau corfforol a dysgu. Felly dylai profiadau o fewn y gylch meithrin cael ei thargedu at beth mae'r plentyn yn gallu gwneud, gwybod yn barod, a'r pethau maent yn hoffi a chasáu, er mwyn gwneud y cyfnod pontio mor esmwyth â phosib.

Pa math o weithgareddau dylech ystyried cael yn gylch meithrin?

Dylai weithgareddau cael ei cynllunio l annog sgiliau-



Cymdeithasol



Creadigol



Cyfathrebu



Gwranddo



Emosiynol



Corfforol

Dywed Baby centre (2020) bydd plentyn yn gweld y gweithgareddau yma fel ffyrdd gwahanol o chwarae. Mae plant yn chwarae i ddatblygu a mynegi ei hun. Dyma rhai enghreifftiau o'r math o weithgareddau bydd plant yn gylch meithrin yn cymryd rhan ynddo-



Chwarae gyda'r pwll tywod, bwrdd dwr neu'r tŷ
chwarae



Paentio, tynnu lluniau, gludo a glyn



Chwarae gyda blociau adeiladu a play dough



Symud a dawnsio i gerddoriaeth



Gwrando ar storiâu a darllen



Gwneud jig-sos a puzzles



Canu caneuon a rhigymau meithrin er
enghraifft 'Mi welais Jac y do'

Pam mae chwarae yn bwysig?

Yn ôl early years matter (2020) mae chwarae yn rhan bwysig o gyfnod pontio. Os ydych yn gwylio plant yn chwarae gwêl nad ydynt o hyd eisiau chwarae gyda phlant eraill neu oedolion, maen nhw'n hapus chwarae ar eu pennau hun. Mae plant rhwng yr oedran 2-3 mlwydd oed wrth eu bod yn esgus, seilio eu chwarae ar bethau maen nhw wedi gweld megis siarad ar y fon. Pan fyddan nhw'n chwarae fel hyn does dim angen y peth go iawn arnynt bob amser felly helpir datblygu sgil creadigol wrth i blant defnyddio eu hymennydd i addasu. Yn ôl Mudiad Meithrin (2020) mae chwarae yn sylfaenol i bob agwedd a datblygiad plentyn, mae'r profiadau a'r gweithgareddau wedi seilio ar ddysgu trwy chwarae. Mae yna bwyslais ar ddatblygiad iaith, datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol yn gylchoedd meithrin. Gwêl enghreifftiau o hyn isod.

Sut i gefnogi y plentyn?

Fel soniwyd dylai weithgareddau cael ei addasu i fod yn fuddiol i bob plentyn i sicrhau bod nhw'n cyflawni'r canlyniadau addysgol gorau. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr sy'n

gweithio i blant yn gwbl gefnogol i'w rôl, o ran nodi a chefnogi holl anghenion unigol pob plentyn gan gynnwys y rhai ac anabledau. Am fod pob plentyn yn unigryw maent yn datblygu/dysgu ar gyflymder gwahanol. Yn ôl Kelly (2016) Fel gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod yma mae'n bwysig i arsylwi datblygiad y plentyn yn aml. Enw'r arsylwad yma yw adolygiad holiledig dwy flwydd oed. Dylai ffocysu ar sgiliau cyfathrebu ac iaith, datblygiad corfforol a phersonol a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Bydd hun yn gwneud yn glir i'r ymarferydd/person allweddol a rhieni os oes unrhyw rannau i bryderu am. Yna os oes unrhyw bryderon, bydd yna gynllun unigol yn cael ei chynllunio i dargedu'r pryderon.

Hierarchaeth Maslow



(Ffynhonnell: Google search, 2020)

Mai ymarferydd yn cael ei annog i ystyried a chefnogi anghenion unigol plant. Felly mae'r triongl hierachraeth Maslow yn dangos anghenion plentyn a beth sydd angen iddynt hwy symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r ddamcaniaeth yn dweud bod pobl yn cael eu hysgogi i gyflawni eu hanghenion mewn trefn hierarchaidd. Mae'r triongl yn dechrau efo anghenion sylfaenol megis gofynion corfforol sef bwyd, tŷ, ocsigen. Wedyn mae'n symud ymlaen i anghenion uwch megis cariad sef mae plentyn eisiau siarad â chi ac efo ymlyniad cadarn. Y nod yw cyrraedd hunan-actoleiddo, dyna pryd mae'r plentyn wedi setlo yn y lleoliad newydd.

Casgliad

Yn amlwg mae'n bwysig iawn bod lleoliadau yn sicrhau bod cyfnod pontio mor esmwyth a phosib trwy ystyried gwneud y pethau uchod megis sicrhau bod anghenion unigolion yn cael ei cyrraedd. Mae'n hanfodol bod Ymarferydd/ gweithwyr allweddol yn cynnal perthynas agos am ei fod yn helpu datblygiad y plentyn ac yn gallu hyrwyddo cymhelliant. Disgrifiwyd trosglwyddo fel taith barhaus yn hytrach na chyrchfan.

Rhestr Cyfeiriadau

Baby centre (2020) *Signs of a good day nursery*. Ar gael o: <https://www.babycentre.co.uk/a541470/signs-of-a-good-day-nursery> (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Busy bees (2020) *The key person*. Ar gael o: <https://www.busybeeschildcare.co.uk/the-key-person> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Collins dictionary (2020) *Transitions*. Ar gael o: <https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/transition> (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Croneri (2020a) *Managing transitions in Early years*. Ar gael o: <https://app.croneri.co.uk/feature-articles/managing-transitions-early-years-provisions> (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Croneri (2020b) *Settling in:supporting the transition from home to childcare*. Ar gael o: <https://app.croneri.co.uk/feature-articles/settling-supporting-transition-home-childcare> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Early Education (2020a) *Transitions*. Ar gael o: <https://www.early-education.org.uk/transitions> (Darllenwyd ar: 20ain o Dachwedd).

Early education (2020b) *Planning effectively to meet children's individual needs and interests*. Ar gael o: <https://www.early-education.org.uk/courses/planning-effectively-meet-children%E2%80%99s-individual-needs-and-interests> (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Early years matter (2020a) *Play & Learning*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/play-learning/> (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Early years matter (2020b) *Positive relationships*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/positive-relationships/#:~:text=When%20children%20are%20looked%20after,the%20child%27s%20needs%20are%20met.> (Darllenwyd ar: 24ain o Dachwedd).

Early years matter (2020c) *Key person & Attachment*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/positive-relationships/key-person-attachment/> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Early years matter (2020d) *Transitions*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/positive-relationships/transitions/> (Darllenwyd ar: 24ain o Dachwedd).

Guy-Evans, O. (2020) *Bronfenbrenner's ecological system theory*. Ar gael o: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Hunt, M. (2017) *Successful transitions in early years*. Ar gael o: <https://afaeducation.org/blog/successful-transitions-in-early-years/successful-transitions-in-early-years/> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Kelly. (2016) *Identifying and supporting all children's individual needs*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscares.com/eyc/send-support/identifying-and-supporting-all-childrens-individual-needs/> (Darllenwyd ar: 20ain o Dachwedd).

Learning Theories (2020a) *Attachment theory Bowlby*. Ar gael o: <https://www.learning-theories.com/attachment-theory-bowlby.html> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Learning theories (2020b) *Maslow's Hierarchy of needs*. Ar gael o: <https://www.learning-theories.com/maslows-hierarchy-of-needs.html> (Darllenwyd ar: 20ain o Dachwedd).

Learning theories (2020c) *Montessori method*. Ar gael o: <https://www.learning-theories.com/montessori-method-montessori.html#:~:text=Models%20%E2%80%A2%201-Summary%3A%20The%20Montessori%20Method%20is%20a%20approach%20to%20learning%20which,child%27s%20unique%20pace%20of%20development.&text=Thus%2C%20education%20is%20viewed%20as,the%20child%27s%20individual%20developmental%20pace>. (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Pacey (2020) *Role of the key person*. Ar gael o: <https://www.pacey.org.uk/membership/pacey-membership-benefits/a-taste-of-membership/role-of-the-key-person/#:~:text=Children%20learn%20by%20observing%20a>

[nd,relate%20to%20and%20rely%20on.&text=The%20key%20person%20works%20alongside,the%20child%27s%20emotional%20well%2Dbeing](#). (Darllenwyd ar: 23ain o Dachwedd).

Parentzone (2020) *what are transitions*. Ar gael o: <https://education.gov.scot/parentzone/my-child/transitions/what-are-transitions/> (Darllenwyd ar: 20ain o Dachwedd).

Montessorri theory (2020) *Maria Montessorri theory principles*. Ar gael o: [http://www.dailymontessorri.com/montessorri-theory/#:~:text=The%20Montessori%20Theory%20is%20an,P
repared%20Environment%20and%20Absorbent%20Mind](http://www.dailymontessorri.com/montessorri-theory/#:~:text=The%20Montessori%20Theory%20is%20an,Prepared%20Environment%20and%20Absorbent%20Mind). (Darllenwyd ar: 21ain o Dachwedd).

Mudiad meithrin (2020) *Amdanom ni*. Ar gael o: <https://www.meithrin.cymru/amdanom-ni/> (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

NDNA (2020) *Developing positive relationships with parents*. Ar gael o: [https://www.ndna.org.uk/NDNA/Community/myNDNA/blog/
2019/Positive relationships with parents.aspx#:~:text=By%
20sharing%20information%2C%20you%20and,support%20th
eir%20learning%20and%20development.&text=Having%20a
%20positive%20relationship%20with,need%20to%20have%2
0with%20parents](https://www.ndna.org.uk/NDNA/Community/myNDNA/blog/2019/Positive%20relationships%20with%20parents.aspx#:~:text=By%20sharing%20information%2C%20you%20and,support%20their%20learning%20and%20development.&text=Having%20a%20positive%20relationship%20with,need%20to%20have%20with%20parents) (Darllenwyd ar: 22ain o Dachwedd).

Welsh government (2017) *Flying start-Annex Transition guidance*